

*Grŵp Adolygu Gweithdrefnau  
Amddiffyn Plant Cymru Gyfan*

*All Wales Child Protection  
Procedures Review Group*



# PROTOCOL

## CYMRU GYFAN

### PLANT SYDD AR GOLL

PLANT SY’N RHEDEG I FFWRDD NEU’N MYND AR GOLL O’U CARTREF NEU O LEOLIAD  
GOFAL

Terfynol:	<u>20fed o Fehefin 2011</u>
Awdur:	<u>Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan</u>
Gweithredu:	
Adolygu:	<u>Mehefin 2012</u>

## **MYNEGAI**

1. **Cyflwyniad**
2. **Egwyddorion**
3. **Rhychwant**
4. **Diffiniadau**
5. **Y Broses ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (Lleoliadau Preswyl a Gofal Maeth)**
6. **Y Broses ar gyfer Plant sy'n mynd ar goll o'u cartref**
7. **Trefniadau Monitro Strategol a Throsolwg**
8. **Rôl asiantaethau unigol**
9. **Llofnodion Asiantaethau**
10. **Atodiadau**

**Atodiad A: Matrics: Camau Gweithredu, Cyfrifoldebau, Graddfeydd Amser a Monitro**

**Atodiad B: Siartiau Llif**

**Atodiad C: Taflen Wybodaeth i Bobl Ifanc**

**Atodiad D: Ffurflen Asesu Risg**

**Atodiad E: Cynllunio Gofal**

**Atodiad F: Rhifau Ffôn Defnyddiol (I'w hychwanegu gan ardaloedd BLIDP unigol)**

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae'r arolwg *Still Running II* (2005) gan Gymdeithas y Plant yn amcangyfrif bod tua 100,000 o bobl ifanc dan 16 yn rhedeg i ffwrdd o'u cartref neu o leoliad gofal bob blwyddyn ar hyd a lled y DU.

Canfu'r arolwg fel a ganlyn:

- Bod 1 ym mhob 6 plentyn sy'n rhedeg i ffwrdd yn cysgu ar y strydoedd
- Bod 1 ym mhob 12 plentyn sy'n rhedeg i ffwrdd yn cael eu brifo neu eu niweidio tra'u bod i ffwrdd

**1.2** Mae ymchwil yn dal i amlygu **natur beryglus** y sefyllfaoedd hyn, o ystyried pa mor agored i niwed yw pobl ifanc a'r risgiau y maent yn agored iddynt. 'I nifer o blant sy'n rhedeg i ffwrdd, mae'r weithred o redeg i ffwrdd ynddi'i hun yn eu rhoi mewn perygl. Gall rhedeg i ffwrdd olygu hefyd bod risg uwch y cânt eu heithrio'n gymdeithasol yn ddiweddarach yn eu hoes. Gwyddom ei bod yn wir mai po fwyaf aml y bydd plant yn mynd ar goll, po fwyaf o risgiau y byddant yn eu hwynebu a pho leiaf y maent wedi'u hangori i'w cartref. Tra'u bod i ffwrdd mae niferoedd sylweddol o blant sy'n rhedeg i ffwrdd yn fwy tebygol o droi at droseddu neu fynd i sefyllfa lle mae rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt er mwyn goroesi, a gallant ddioddef ymosodiadau corfforol hefyd' cyf: *'Young Runaways' Yr Uned Eithrio Cymdeithasol Tachwedd 2002.*

**1.3** Ceir canllawiau i ymarferwyr ynghylch yr hyn y dylent ei wneud os ydynt yn dod ar draws plentyn y mae rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arno/arni neu sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol yn y Protocol Cymru Gyfan: Diogelu a Hybu Lles Plant y mae perygl eu bod yn cael eu Cam-drin trwy Gamfanteisio Rhywiol (Hydref 2008 – Saesneg yn Unig) a Chanllawiau Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011.

**1.4** Cydnabyddir hefyd fod cysylltiadau cryf rhwng mynd ar goll, masnachu plant a phriodas dan orfod. Ceir canllawiau i ymarferwyr sy'n dod ar draws plentyn a allai fod wedi cael ei fasnachu yng nghyfarwyddyd atodol Llywodraeth Cynulliad Cymru: Diogelu Plant a allai fod wedi cael eu Masnachu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2008). (Sylwer: Mae Protocol Cymru Gyfan ar fin cael ei gyhoeddi hefyd).

**1.5** Ceir canllawiau i ymarferwyr sy'n dod ar draws achos lle gallai priodas dan orfod fod yn broblem yn y cyfarwyddyd ymarfer amlasiantaethol: Handling Cases of Forced Marriage (Y Swyddfa Gartref, Mehefin 2009).

**1.6** Mae plant sy'n rhedeg i ffwrdd neu'n mynd ar goll yn anfon neges glir atom – mae arnynt angen help i ymdrin â phroblemau yn eu bywydau. Yn amlwg bydd amgylchiadau'r absenoldebau hyn (cyfuniad o ffactorau 'gwthio' a 'thynnu') yn amrywio'n fawr iawn. Mae'n bwysig ein bod yn chwilio am y rhesymau y mae plant yn rhedeg i ffwrdd a'n bod yn gwrandao ac yn gweithredu arnynt.

**1.7** Mae o'r pwys mwyaf bod yr holl asiantaethau'n cydweithio i ddiogelu plant sy'n mynd ar goll. Dylid ystyried bod pob digwyddiad sy'n ymwneud â phlentyn yn mynd ar goll yn ddigwyddiad difrifol gan fod y risgiau'n ddifrifol ar bob achlysur. Pan geir digwyddiadau lluosog, bydd angen i weithwyr proffesiynol ystyried a yw lleoliad y plentyn yn briodol ac a oes angen, er enghraifft, newid y lleoliad i

ddarparu sefyllfa fwy sefydlog ar gyfer y plentyn. 'Dylai pob episod lle mae person yn mynd ar goll gael sylw priodol gan y gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r person sydd ar goll ac mae'n rhaid iddynt gydweithio i sicrhau y rhoddir ymateb cyson a chydlynol i'r person sydd ar goll pan fydd yn dychwelyd.' ('Canllawiau ar gyfer rheoli, cofnodi ac ymchwilio i bobl sydd ar goll' Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, 2005)

## **2. Egwyddorion**

### **2.1 Dull Plentyn-Ganolog**

Diogelwch a lles y plentyn yw'r prif nod. Tra bo'r plentyn ar goll, y prif amcan y dylai'r holl asiantaethau roi sylw iddo yw dod o hyd i'r plentyn sydd ar goll a'i ddychwelyd.

### **2.2 Gweithio'n Rhyngasiantaethol**

Dylai swyddogion heddlu, gweithwyr cymdeithasol, gofawlywyr, gweithwyr ym myd addysg, gweithwyr iechyd a'r holl asiantaethau eraill rannu gwybodaeth er mwyn gweithio ar y cyd i sicrhau bod plant sydd ar goll o'u cartref neu o leoliad gofal yn cael eu hadfer yn ddiogel. Dylai'r heddlu sicrhau y bydd yr holl wybodaeth mewn perthynas â phlant sydd ar goll yn cael ei rhannu rhwng swyddogion rhanbarthol eraill ac Uned Diogelu'r Cyhoedd (PPU). Bydd y broses a'r gweithdrefnau ar gyfer hysbysu ynghylch plant sydd ar goll gan yr Awdurdod Lleol ac asiantaethau eraill yn cydymffurfio â'r protocol hwn. Dylid dilyn gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan mewn perthynas â'r holl blant.

### **2.3 Gwasanaethau Ymatebol**

Gall fod yn anodd ymgysylltu â phlant sy'n mynd ar goll, ond ni ddylai hyn arwain at labelu'r plant fel y broblem. Dylai asiantaethau ochel rhag diystyru digwyddiadau lluosog a methu â dadansoddi a mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol neu'r risgiau i'r plentyn tra'i f/bod ar goll. Dylai asiantaethau weithio'n rhagweithiol gyda phlant sydd mewn perygl o redeg i ffwrdd a dylai'r rheiny gael eu hadnabod a chael mynediad at wasanaethau cymorth. Fel rhiant corfforaethol i Blant sy'n Derbyngofal, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ofalu am les a diogelwch plant. Nid yw'n cael ei ryddhau oddi wrth y cyfrifoldeb hwn pan hysbysir fod plentyn/person ifanc ar goll. Yn yr un modd, bydd yr heddlu'n gweithredu pryd bynnag y caiff ei hysbysu bod plentyn ar goll.

### **2.4 Amrywiaeth**

Mae plant sy'n mynd ar goll yn unigolion un ac oll a byddant yn dod o ystod o gefndiroedd a diwyllianau. Mae angen i asiantaethau weithio mewn ffordd sy'n sensitif i gefndir a hunaniaeth y plentyn gan sicrhau ar bob adeg mai eu diogelwch a'u lles yw'r ystyriaeth bwysicaf.

## **3. Rhychwant**

**3.1** Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i'r holl blant a phobl ifanc hyd at 18 oed ac mae'n cynnwys:

- Plant sy'n mynd ar goll ac sy'n byw o fewn eu teuluoedd
- Plant sy'n Derbyngofal gan yr Awdurdod Lleol ac sy'n mynd ar goll o'u lleoliad (gan gynnwys plant ar remand)

**3.2** Nid yw'r holl blant sy'n derbyn gofal i ffwrdd o gartref y rhieni'n blant sydd wedi'u lleoli yn ôl yr adrannau yn Neddf Plant 1989. Mae rhai plant yn byw mewn canolfannau addysg neu iechyd / anableded preswyl. Mae llawn cymaint o angen diogelu ac amddiffyn y plant hyn os digwydd iddynt

fynd ar goll. Dylai sefydliadau o'r fath, a'r bobl sy'n gyfrifol am leoli plant mewn sefydliadau o'r fath, fod yn ymwybodol o'r protocol hwn a gwneud trefniadau i ymateb i ddigwyddiadau lle mae plant yn mynd ar goll yn unol â'r protocol.

**3.3** Nid yw'r ddogfen hon yn berthnasol pan fo amheuaeth o fasnachu plentyn, cipio plentyn neu droseidd difrifol ac mae'n rhaid hysbysu'r Heddlu ynghylch y sefyllfaoedd hyn ac ymdrin â hwy fel ymchwiliad troseddol. Fodd bynnag, mae Plant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pen eu Hunain yn grŵp sy'n wynebu risg arbennig o uchel o fynd ar goll ac maent yn agored i niwed dan yr amgylchiadau hyn. Mae cysylltiadau eglur rhwng Plant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pen eu Hunain a phlant sy'n mynd ar goll o ofal yr Awdurdod Lleol a phlant sydd mewn perygl o gael eu masnachu.

**3.4** Bwriedir i'r protocol hwn ategu arfer da presennol. Mae'n ceisio rhoi arweiniad i ofalwyr, swyddogion heddlu, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ym myd addysg ac asiantaethau perthnasol eraill o ran ymdrin â sefyllfaoedd lle mae plant yn mynd ar goll. Ni all ragweld pob sefyllfa ac mae'n dilyn felly bod yn rhaid i'r holl staff barhau i arfer barn broffesiynol a chymryd unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol i amddiffyn diogelwch unrhyw blentyn yn seiliedig ar asesiad risg o'u hamgylchiadau unigol. Mae asesiad risg unigol yn elfen allweddol o'r holl broses hon.

#### **4. Diffiniadau**

**4.1** Y diffiniad o blant yw unrhyw berson hyd at 18 oed. Bydd y geiriau 'plentyn' a 'plant' yn cael eu defnyddio drwy'r ddogfen i olygu unrhyw berson hyd at 18 oed.

**4.2** Mae Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynnwys yr holl blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol, boed dan Adran 20 o Ddeddf Plant 1989, neu Orchymyn Gofal dan Adran 31, neu Orchymyn Gofal Interim dan Adran 38 neu Orchymyn Amddiffyn Brys. Mae'n berthnasol i blant sydd wedi'u remandio i ofal yr Awdurdod Lleol; fodd bynnag, dylid nodi y gallai plant sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Remand orfod cydymffurfio ag amodau a gymhwyswyd gan y Llysoedd fel rhan o'u remand. Mae'n anorfod y gallai hyn ddylanwadu ar y modd yr ymatebir i episod o ddianc ac y gall fod angen ymateb dan y Ddeddf Mechniaeth.

#### **4.3 ABSENOLDEB ANAWDURDODEDIG**

Mae'r categori hwn yn hollbwysig i egluro rolau'r Heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol a darparwyr gwasanaethau ac mae'n cyfeirio dim ond at blant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdod Lleol.

**4.3.1 Ni fydd y categori 'Absenoldeb Anawdurdodedig' ond yn berthnasol am uchafswm o 6 awr neu tan hanner nos ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb (Fodd bynnag, i rai plant gall yr asesiad risg ganfod bod angen ymateb cyflymach). Bydd unrhyw absenoldeb sy'n hwy na'r cyfnod hwnnw, lle mae lleoliad y plentyn yn anhysbys neu heb ei gadarnhau, yn cael eu hailgategoreiddio fel 'Ar Goll' a bydd yr Heddlu'n cael eu hysbysu. Ni ddylai unrhyw blentyn sydd ar goll ar ôl chwe awr neu ar ôl hanner nos fod ar goll heb i'r heddlu gael eu hysbysu.** Yn amlwg, mae rhai plant yn absennol am gyfnod byr ac wedyn yn dychwelyd. Gall plant o'r fath fod yn profi'r ffiniau ac nid ydynt o anghenraid yn cael eu hystyried yn blant sydd mewn perygl. Ni fydd unrhyw absenoldeb gan blentyn sy'n perthyn i'r categori hwn yn cael ei wneud yn hysbys i'r Heddlu fel rhan o'r drefn arferol a staff y cartref gofal neu'r gofalwr maeth sy'n gyfrifol am reoli hyn.

**4.3.2** Mae'n rhaid cynnal asesiad risg parhaus ar gyfer plant sy'n perthyn i'r categori hwn tra'u bod yn dal i fod yn absennol. Yn ystod eu habsenoldeb gall amgylchiadau newid y farn am y risg a'i gwneud yn angenrheidiol ymateb mewn ffordd wahanol.

**4.3.3** Yn ystod y cyfnod hwn o absenoldeb bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a darparwyr gwasanaethau'n cymryd yr holl gamau rhesymol ac ymarferol y byddai rhiant da'n eu cymryd i ganfod ble mae'r plentyn, neu leoliad unrhyw bobl y mae'n debygol o fod yn cymdeithasu â hwy a threfnu bod rhywun yn chwilio yn y manau hynny.

**4.3.4** Os yw rhywun yn gwybod neu'n amau ble mae'r plentyn, yna cyfrifoldeb y Darparwr Gwasanaeth yw dod o hyd i'r plentyn a dod â'r plentyn yn ôl. Fodd bynnag, os credir y gall fod materion penodol sy'n ymwneud â diogelwch neu anawsterau sy'n ymwneud â'r drefn cyhoeddus wrth geisio dychwelyd y plentyn, yna bydd yr Heddlu'n cynorthwyo gyda'r broses adfer. Ni fyddai'r amgylchiadau hyn yn golygu y dylid categoreiddio'r plentyn / person ifanc fel un sydd 'ar goll'.

**4.3.5** Dylai'r holl gamau ac ymholiadau a gwblhawyd er mwyn dod o hyd i'r plentyn gael eu cofnodi gan bob asiantaeth unigol a'u gwneud yn hysbys i'r Heddlu wrth eu hysbysu bod y plentyn ar goll.

#### **4.4 AR GOLL**

Caiff plentyn ei ddiffinio fel plentyn sydd ar goll pan nad yw lleoliad y plentyn neu'r rheswm dros absenoldeb y plentyn yn hysbys a lle mae achos i bryderu ynghylch y plentyn oherwydd ei natur agored i niwed, neu fod perygl posib i'r cyhoedd. Ystyrir fod y plentyn ar goll nes doir o hyd iddo/iddi ac y ceir cadarnhad ynghylch lles y plentyn, y naill ffordd neu'r llall.

**4.4.1** Mae plentyn ar goll os yw'n cael ei ystyried yn un sydd wedi bod ar absenoldeb anawdurdodedig am fwy na chwe awr neu heibio hanner nos. Dylid ystyried mai chwe awr yw'r UCHAFSWM ac yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd bydd cyfnodau byrrach o lawer yn briodol.

**4.4.2** Dylai absenoldeb Plant dan yr amgylchiadau uchod gael ei wneud yn hysbys i'r Heddlu ar unwaith.

#### **4.5 WEDI DIANC**

Dihangwr yw plentyn/person ifanc sydd, o ganlyniad i Orchymyn Llys, wedi cael ei remandio i lety Awdurdod Lleol. Os yw'r person ifanc wedi torri gorchymyn llys byddai hyn yn ysgogi gwarant arestio (gan ddibynnu a yw wedi cael ei arestio ai peidio). Os yw person ifanc wedi torri amodau mechnïaeth yr heddlu bydd yr heddlu'n cael eu hysbysu.

**4.5.1** Mae angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu ystyried statws cyfreithiol y plentyn sydd wedi cael ei remandio gan y Llysoedd. Felly efallai nad eu cyfrifoldeb hwy yn unig fydd rheoli absenoldebau o'r fath. Gall fod yn angenrheidiol cynnwys y Tîm Troseddau Ieuencid (TTI), Gwasanaeth Erllyn y Goron a'r Llys Ieuencid.

## **5. Y broses ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**

**5.1** Mae'r holl blant sy'n 'derbyn gofal' yn cael eu lleoli dan amodau'r offerynnau statudol canlynol: Rheoliadau Lleoli Plant gyda Rhieni 1991, Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003, Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) (Diwygio) 2003, Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007, Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002, Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2007.

### **5.2 Plant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pen eu Hunain**

Mae Plant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pen eu Hunain yn grŵp sy'n wynebu risg arbennig o uchel o fynd ar goll ac maent yn agored i niwed dan yr amgylchiadau hyn. Dylai fod gan Awdurdodau Lleol brotocolau amlasiantaethol lleol y mae'n rhaid eu dilyn os yw plentyn yn mynd ar goll. Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan hefyd yn rhoi arweiniad penodol mewn perthynas â phlant sy'n mynd ar goll ac sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Ceir mwy o gyngor ac arweiniad yn y Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu Plant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pen eu Hunain.

### **5.3 Masnachu Plant**

Mae cysylltiadau amlwg rhwng Plant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pen eu Hunain, plant sy'n mynd ar goll o ofal Awdurdod Lleol a phlant sydd mewn perygl o gael eu masnachu. Mae ymchwil yn y DU yn awgrymu y bydd nifer o blant a fasnachwyd yn dod i'r amlwg fel plant sydd ar eu pen eu hunain ac yn ceisio lloches ac y byddant wedyn yn mynd ar goll o leoliad gofal, fel arfer o fewn 48 awr. Ceir mwy o gyngor ac arweiniad ynghylch masnachu plant yng nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, Diogelu Plant a allai fod wedi cael eu Masnachu, LICC, Ebrill 2008.

### **5.4 Rhag-gynllunio**

Wrth baratoi cynllun gofal ac mewn cyfarfodydd i drafod lleoliadau, bydd staff Gwasanaethau Plant yn ystyried pa mor agored i niwed yw plentyn o ran mynd ar goll a'r risgiau cysylltiedig y bydd y plentyn yn mynd ar goll. (Gweler Atodiad D.)

**5.4.1** Mewn achosion lle bu pryderon blaenorol ynghylch plentyn yn mynd ar goll, bydd y cynllun gofal yn cynnwys:

- y tebygolrwydd y bydd y plentyn yn mynd ar goll
- lefel yr oruchwyliaeth/y cymorth a gynigir i'r plentyn
- cyngor y rhieni a'r gofalmwyr ynghylch y camau gweithredu y maent yn teimlo y dylid eu cymryd os bydd y plentyn yn mynd ar goll
- lefel y risg sy'n bodoli os yw'r plentyn ar goll, (gan gynnwys pa mor agored i niwed yw'r plentyn a'r risg i'r cyhoedd)
- effaith unrhyw amodau a orfodwyd gan y llysoedd e.e. cyrffyw

**5.4.2** Dylid rhoi copi i'r plentyn o Atodiad C yn y protocol hwn sy'n egluro'r camau gweithredu y dylid eu cymryd os yw ar goll neu'n absennol o'r man preswyllo arferol. Dylid gwneud pob ymdrech i gyfleu egwyddorion y protocol mewn achosion lle nad yw'r plentyn yn gallu darllen.

**5.4.3** Pan wyddys fod plant yn mynd ar goll yn rheolaidd, dylai gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr wastad ystyried cynnwys yr heddlu lleol yn y cyfnod rhag-gynllunio.



## **5.5 Ymateb i ddigwyddiad**

**5.5.1** Pan fo plentyn yn absennol heb ganiatâd mae'n angenrheidiol cychwyn gweithdrefnau sy'n ei hannog i ddychwelyd cyn gynted ac mor ddiogel â phosib.

**5.5.2** Dylai pwy bynnag sy'n darganfod bod plentyn wedi mynd yn absennol heb ganiatâd o gartref preswyl hysbysu'r Rheolwr neu, yn ei (h)absenoldeb yr uwch aelod o staff sydd ar ddyletswydd ynghylch yr absenoldeb hwn ar unwaith neu, os bydd plentyn yn absennol o leoliad gofal maeth, Swyddog ar Ddyletswydd y Gwasanaethau Cymdeithasol (neu y tu allan i oriau arferol, Tîm Dyletswydd Argyfwng y Gwasanaethau Cymdeithasol) ar gyfer yr ardal y mae'r plentyn yn dod ohoni.

**5.5.3** Dylai'r rheiny â chyfrifoldeb am y plentyn ystyried ar unwaith a yw'r plentyn ar 'absenoldeb anawdurdodedig' ynteu 'ar goll' yn ôl y diffiniadau yn adran 4 o'r ddogfen hon.

**5.5.4** Dan amgylchiadau sy'n ymwneud ag 'absenoldeb anawdurdodedig' bydd disgwyl i'r gofalwr gymryd yr holl gamau rhesymol ac ymarferol i ganfod ble mae'r plentyn ac/neu pam fod y plentyn yn absennol ac adolygu'r sefyllfa'n barhaus. Cyn cysylltu â'r heddlu, dylai gofalwyr maeth a chartrefi gofal fod wedi chwilio'r cartref a'r tir o'i amgylch a chysylltu â theulu/ ffrindiau a chymdeithion. Mae'n rhaid i swyddogion heddlu sy'n mynychu digwyddiadau lle mae plant ar goll o leoliad gofal wirio bod yr uchod wedi cael ei wneud. Dylid rhoi ystyriaeth ar y cam hwn i gynnal trafodaeth gynnar gyda'r Heddlu ac unrhyw asiantaethau perthnasol eraill ynghylch y sefyllfa gyfredol a'r ymateb hyd yma.

**5.5.5** Cyn gynted â bod y plentyn wedi'i ddiffinio fel plentyn sydd **ar goll** mae'n rhaid cymryd y camau canlynol:

- Hysbysu'r Heddlu (os yw plentyn yn byw y tu allan i'w ardal ei hun dylid hysbysu'r Heddlu yn ardal yr awdurdod sy'n lleoli gan y gallai'r plentyn ddychwelyd i'r ardal gartref)
- Hysbysu'r rhieni ac unrhyw un arall â Chyfrifoldeb Rhiant
- Hysbysu'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am y plentyn, Gweithiwr Cymdeithasol, Rheolwr Llinell Perthnasol neu ddilyn y weithdrefn y tu allan i oriau arferol (Tîm Dyletswydd Argyfwng)
- Hysbysu Rheolwr Cofrestredig/Rheolwr ar alwad y Cartref

**5.5.6** Yn dilyn derbyn hysbysiad, dylai unrhyw achos o blentyn sydd ar goll sy'n achosi pryder neu anhawster arbennig gael ei ddwyn i sylw'r Uwch Reolwr – Gwasanaethau a'r Rheolwr Rhanbarthol neu aelod o'r Tîm Rheoli yn ddiymdroi. Bydd yr Uwch Reolwr – Gwasanaethau ac aelod o'r Tîm Rheoli Rhanbarthol wedyn yn penderfynu ar gamau gweithredu pellach ac yn ystyried yr angen i hysbysu'r Pennaeth Gweithrediadau/Prif Gwnstabl Cynorthwyol.

## **5.6 Gwybodaeth y dylid trefnu ei bod ar gael i'r heddlu**

Wrth hysbysu ynghylch plentyn sydd ar goll, dylai'r wybodaeth ganlynol, lle mae'n hysbys, fod ar gael ar unwaith dros y ffôn ac yn ysgrifenedig cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol (Atodiad E):

- Pa gamau gweithredu a gymerwyd gan ofalwyr ac eraill i ddod o hyd i'r plentyn/person ifanc (gan gynnwys cyswllt â ffôn symudol, mynediad at wefannau rhwydweithio cymdeithasol)

- Disgrifiad o'r plentyn a'i ddillad
- Statws cyfreithiol y plentyn
- Amgylchiadau diflaniad y plentyn
- Pryd y gwelwyd y plentyn ddiwethaf a chyda phwy
- Ffotograff diweddar (os yn bosib)
- Manylion ffôn symudol y plentyn
- Cyfeiriadau'r teulu
- Cydnabod/cyfeiriadau y gwyddys amdanynt
- Unrhyw hanes blaenorol o fod ar goll/o ddianc
- Enw a chyfeiriad y meddyg teulu a'r deintydd
- Dangosyddion y gwyddys amdanynt sy'n dynodi risg i'r plentyn ei hun neu i eraill
- Unrhyw amgylchiadau sy'n cynyddu'r risg i'r plentyn
- Ymdrechion a wnaed yn barod i ddod o hyd i'r plentyn
- Unrhyw feddyginiaeth y mae'r plentyn yn ei chymryd/unrhyw gyflwr meddygol
- Unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol neu o gymorth
- Ffurflen asesu risg (gweler atodiad D)
- Nodweddion gwahaniaethol h.y. marciau, creithiau, tatŵs.

**5.6.1** Dan amgylchiadau lle bydd yr heddlu'n ei gwneud yn ofynnol chwilio adeiladau, dylid rhoi mynediad llawn i swyddogion heddlu.

**5.6.2** Hyd yn oed ar ôl hysbysu bod plentyn ar goll, dylid cydnabod mai'r gwasanaethau cymdeithasol a gofalwyr sy'n gyfrifol am blant yn eu gofal ar bob adeg ac nad ydynt yn cael eu rhyddhau oddi wrth y cyfrifoldeb pan eu bod wedi hysbysu'r heddlu bod plentyn ar goll. Argymhellir fod y darparwr gofal yn cynnal cyswllt rheolaidd â'r heddlu (o leiaf bob 12 awr) er mwyn rhoi diweddariadau ar y cynnydd a wnaed wrth ddod o hyd i'r plentyn.

**5.6.3** Tra bo'r plentyn ar goll dylai'r holl asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r plentyn gadw mewn cysylltiad â'i gilydd a thrafod pa gamau gweithredu parhaus fydd yn cael eu cymryd i geisio dod o hyd i'r plentyn.

## **5.7** Asesiad Risg

Mae'n rhaid i'r broses benderfynu fod yn seiliedig ar asesiad unigol o'r risg. Wrth asesu arwyddocâd sefyllfa lle mae plentyn ar goll a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hynny, mae'n rhaid i'r holl weithwyr ystyried ystod o ffactorau gan gynnwys y rheiny a nodir isod. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr yn un gynhwysfawr ac mae'n rhaid i asesiadau fod yn seiliedig ar amgylchiadau unigol yr achos. Dylid ystyried y canlynol:

- Canllawiau a gytunwyd eisoes yng nghynllun gofal y plentyn;
- Oedran ac aeddfedrwydd y plentyn;
- Statws cyfreithiol y plentyn mewn gofal/pa un a yw'n ddarostyngedig i Orchymyn Llys neu amodau Mechnïaeth yr Heddlu
- Patrymau ymddygiad blaenorol/hanes o absenoldeb anawdurdodedig
- Patrymau ymddygiad blaenorol/hanes o fynd ar goll

- Hanes o hunan-niweidio neu bryderon ynghylch hunan-niweidio
  - Unrhyw bryderon ynghylch camddefnyddio sylweddau;
  - Pa mor agored i niwed yw'r plentyn o ganlyniad i'r canlynol
- Cyflwr meddyliol neu gorfforol
- Anawsterau dysgu
- Gofynion meddygol
- Rhywedd
- Anabledd
- Ethnigrwydd
- Anghenion ieithyddol/cyfathrebu
- Crefydd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Statws mewnfudo;
- Ymddygiad grŵp;
  - A oes canfyddiad bod y plentyn yn rhedeg i ffwrdd at, neu oddi wrth, rywun neu sefyllfa;
  - Cyflwr meddyliol y plentyn pan aeth ar goll;
  - A yw'r plentyn yn wynebu risg o ddiodef camfanteisio rhywiol/priodas dan orfod;
  - A yw'r plentyn yn gysylltiedig â gweithgarwch troseddol;
  - Yr adeg o'r dydd;
  - Unrhyw amgylchiadau arbennig eraill ar adeg y digwyddiad;
  - A yw'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

**5.7.1** Mae ffurflen asesu risg wedi'i hatodi yn Atodiad D. Bydd angen i weithwyr sy'n gysylltiedig â'r achos gytuno pwy fydd yn cwblhau'r ffurflen asesu risg a sut y bydd yr asesiad hwn yn cael ei rannu gyda'r Heddlu.

**5.7.2** Yn dilyn eu hysbysu, bydd yr Heddlu'n cynnal eu hasesiad risg eu hunain yn unol â'u gweithdrefnau mewnol a dylai hyn ymgorffori'r asesiad risg a gwblhawyd gan y cartref preswyl, yr awdurdod sy'n lleoli a'r gofawyr maeth.

### **5.8 Cofnodi**

Dylai fod gan bob asiantaeth ei chanllawiau a'i systemau cofnodi ei hun mewn perthynas â phlant yn mynd ar goll. Dylai staff gwaith cymdeithasol, gofawyr maeth a swyddogion heddlu gyfeirio at ganllawiau eu hasiantaeth unigol.

### **5.9 Ar goll o leoliad gofal yn ystod gweithgaredd allanol a drefnwyd**

Bydd y sawl sy'n gyfrifol am y gweithgaredd allanol yn gwneud y canlynol:

- Cynnal asesiad risg ar unwaith o'r amgylchiadau a ddylai bennu'r camau gweithredu y dylid eu cymryd. (Bydd y camau gweithredu a'r graddfeydd amser yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys: amgylchiadau, lleoliad, ffactorau amgylcheddol, lefelau plant a staff. Os yn bosib dylid ceisio cyngor gan uwch reolwyr, e.e. a yw'n briodol dan yr amgylchiadau cychwyn chwiliad lleol os yw'r lefelau staffio'n caniatáu

ynteu a yw'n angenrheidiol ffonio'r heddlu ar unwaith er mwyn diogelu'r plentyn. Hefyd unrhyw wasanaethau brys eraill os oes angen.

- Hysbysu'r Heddlu lleol yn yr ardal honno AR UNWAITH;
- Hysbysu'r gofalwr, y person/bobl â chyfrifoldeb rhiant, y tîm Dyletswydd Argyfwng, Gweithiwr Cymdeithasol a Rheolwr Gwaith Cymdeithasol;
- Cychwyn chwiliad lleol os yw'r lefelau staffio'n caniatáu;

**5.9.1** Dan amgylchiadau lle mae plentyn neu berson ifanc yn mynd ar goll o blith criw o bobl ar weithgaredd a drefnwyd yn allanol bydd angen penderfynu cyn gynted â phosib a ddylai aelodau eraill o'r grŵp ddychwelyd adref. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n gyfrifol am y gweithgaredd allanol drafod hyn gyda'r uwch reolwyr. Dylai'r heddlu yn yr ardal lle mae'r plentyn wedi mynd ar goll gael ei hysbysu ynghylch y penderfyniad hwn.

**5.9.2** Bydd cyfathrebu parhaus ynghylch y plentyn sydd ar goll yn cael ei gynnal rhwng y Gwasanaethau Plant yn yr ardal lle digwyddodd yr absenoldeb ac/neu'r awdurdod sy'n gyfrifol a'r Heddlu ar gyfer yr ardal leol lle digwyddodd yr absenoldeb.

### **5.10 Cyfnod Parhaus ar Goll**

Dylai unrhyw gyfnod ar goll sy'n para'n hwy na 24 awr gael ei wneud yn hysbys i Uwch Reolwr y Gwasanaethau Plant gan Reolwr y Cartref, Gweithiwr Cymdeithasol neu Ofalwr Maeth a dylai'r cyfrifoldeb am hyn gael ei gytuno gan y partïon hyn.

**5.10.1** Dylai unrhyw gyfnod ar goll sy'n para'n hwy na 48 awr gael ei wneud yn hysbys i Bennaeth y Gwasanaethau Plant.

**5.10.2** Bydd proses adolygu barhaus yn digwydd mewn perthynas â phob absenoldeb.

**5.10.3** Pryd bynnag fo plentyn ar goll am gyfnod o 7 niwrnod, neu cyn hynny os oes angen, bydd cyfarfod strategaeth yn cael ei gynnal yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (os nad yw hwn wedi digwydd yn barod). Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei Gadeirio gan uwch reolwr ar ran y Gwasanaethau Plant ac yn bresennol bydd cynrychiolydd ar ran yr heddlu ac unrhyw gynrychiolydd priodol arall o bob asiantaeth.

**5.10.4** Yn dilyn y cyfarfod hwn dylai'r holl wasanaethau dan sylw gynnal dialog agored, gan gyfnewid gwybodaeth a darparu diweddariadau fel y bo'n briodol. Mae'n rhaid i unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan gael eu cymryd hefyd.

**5.10.5** Lle mae plentyn ar goll am yn hwy na 7 niwrnod, dylai'r achos gael ei adolygu'n ffurfiol bob wythnos gyda'r partïon perthnasol gan y rheolwr tîm priodol, a dylai'r Uwch Reolwr gael ei hysbysu'n gyson. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys cyswllt â'r heddlu i ddiweddarau pob asiantaeth mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiadau.

### **5.11 Cyhoeddusrwydd yn y Cyfryngau, Cyfathrebu a Chynllunio**

**5.11.1** Cyn gynted ag yr hysbysir yr heddlu bod plentyn neu berson ifanc ar goll, mae'r swyddog cyntaf sy'n ymateb i'r achos yn gyfrifol am nifer o gamau gweithredu gan gynnwys ychwanegu'r plentyn fel plentyn sydd 'ar goll' ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.

**5.11.2** Lle mae'r amgylchiadau'n mynnu hynny, bydd yr Heddlu'n dosbarthu gwybodaeth i heddluoedd eraill yn genedlaethol trwy'r Biwro Cenedlaethol Pobl sydd Ar Goll – gellir rhoi ystyriaeth ar y cam hwn i ddefnyddio Gwefan Pobl sydd Ar Goll y DU ([www.missingkids.co.uk](http://www.missingkids.co.uk))

**5.11.3** Yr heddlu sydd â chyfrifoldeb am yr ymchwiliad i'r person sydd ar goll a bydd yr heddlu'n penderfynu a fydd ymwneud gan y cyfryngau o gymorth ynteu'n rhwystr i'w hymdrechion. Fodd bynnag ni ellir cynnwys y cyfryngau heb ganiatâd y rheiny â chyfrifoldeb rhiant.

**5.11.4** Pan roddir ystyriaeth i hysbysu'r cyfryngau, mae'n rhaid cynnal trafodaethau, fel y bo'n briodol, rhwng:

- Yr heddlu
- Uwch Reolwr o'r Gwasanaethau Plant
- Gweithiwr Cymdeithasol y Plentyn
- Y Rhieni neu unrhyw unigolion eraill â Chyfrifoldeb Rhiant (Ile y bo'n briodol)
- Rhieni maeth neu unrhyw unigolion perthnasol eraill
  - A ddylid ceisio cyhoedduswydd mewn perthynas â'r plentyn sydd ar goll ai peidio;
  - Pa rannau o'r cyfryngau y dylid eu cynnwys (e.e. y wasg leol yn unig, ynteu'r wasg ehangach a sylw ar y teledu); dylid cydnabod natur fwy ymwithiol a phellgyrhaeddol unrhyw sylw ar y teledu, a'r effaith bosib ar y plentyn a'i deulu;
  - Pa wybodaeth y dylid ei rhannu a lefel y manylion y dylid eu rhoi (dim ond dan amgylchiadau eithriadol y dylid cynnwys y ffaith bod y plentyn yn derbyn gofal);
  - A ddylid darparu ffotograff ai peidio;
  - Pwy ddylai siarad gyda'r cyfryngau – yr heddlu fydd yn arwain, gan gael cymorth gan y Gwasanaethau Plant. Dylai'r holl weithwyr proffesiynol ac asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r plentyn beidio â siarad gyda'r cyfryngau oni bai fod hynny wedi'i gytuno, ac mae hyn yn cynnwys gofalwyr maeth. Pe baent yn gwneud hynny fe allent greu rhwystr i'r ymchwiliad a gallent hefyd fod yn torri hawliau Diogelu Data'r unigolion dan sylw. Gall rhieni a'r rheiny â Chyfrifoldeb Rhiant ddewis siarad gyda'r cyfryngau, ond dylent ddeall gan yr Heddlu pa effaith y gallai gwybodaeth anghyd-drefnus yn y cyfryngau ei chael.

**5.11.5** Lle mae angen cyhoedduswydd yn y cyfryngau, bydd unrhyw ddatganiad a wneir rhwng asiantaethau fel arfer yn cael ei gytuno rhwng swyddogion y wasg. Lle mae ymchwiliad i blentyn sydd ar goll yn mynd i gael cyhoedduswydd trwy'r cyfryngau, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i roi gwybod i'r rhieni ymlaen llaw pryd y bydd y datganiad i'r wasg yn cael ei ryddhau.

**5.11.6** O fewn uned breswyl, gall fod angen gwneud trefniadau i hysbysu'r holl blant a staff yn unrhyw sefydliad(au) perthnasol ynghylch y sefyllfa bresennol. Trwy wneud hyn gellir osgoi sibrydion trallodus a gellir casglu cudd-wybodaeth ychwanegol ynghylch lleoliad a chymdeithion y plentyn sydd ar goll.

### **5.12 Cynllunio ar gyfer yr amser pan ddoir o hyd i'r plentyn**

Dylai asiantaethau ystyried beth fydd yn digwydd pan ddoir o hyd i blentyn a chynllunio ar gyfer diogelwch a lles y plentyn. Dylai trafodaeth amlasiantaethol gynnwys:

- A fydd y plentyn yn dychwelyd i'r lleoliad blaenorol ynteu i leoliad arall;
- Sut fydd y plentyn yn cael ei gludo yno;
- Pwy fydd yn cynnal cyfweliad/ôl-drafodaeth gyda'r plentyn a sut y bydd hyn yn cael ei hwyluso;
- Adnabod 'person annibynnol' priodol i fod yn gefn i'r plentyn unwaith y doir o hyd iddo/iddi.

### **5.13 Dod o Hyd i'r Plentyn a'i Ddychwelyd**

Pan ddoir o hyd i'r plentyn, cyfrifoldeb yr adran gwasanaethau cymdeithasol sy'n lleoli yw gwneud trefniadau ar gyfer cludo'r plentyn i'w fan preswyllo. Bydd yr heddlu'n rhoi cymorth lle mae adnoddau'n caniatáu.

Lle y bo'n briodol dylai'r plentyn gael ei gludo'n uniongyrchol i'w leoliad ac nid i, na thrwy, orsaf heddlu, oni bai fod unrhyw wybodaeth yn awgrymu nad yw dychweliad uniongyrchol yn rhywbeth sydd er lles y plentyn (er enghraifft pe bai dychweliad i'r lleoliad yn codi pryderon ynghylch diogelwch neu les y plentyn).

### **5.14 Pwerau i roi'r plentyn dan gadwad ar ôl dod o hyd iddo/iddi**

NID oes gan yr heddlu bŵer awtomatig i roi plentyn dan gadwad oni bai fod y canlynol yn berthnasol:

- Mae'r plentyn mewn perygl o niwed difrifol;
- Mae'r plentyn yn ddarostyngedig i Orchymyn Llys dan Adran 31;
- Mae'r plentyn wedi torri amodau mechnïaeth neu amodau remand a osodwyd gan lys.

**5.14.1** Gellir gwneud cais am orchmynion adfer mewn perthynas â phlentyn sydd ar orchmyn gofal, sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Amddiffyn Brys, neu sy'n cael ei amddiffyn gan yr heddlu.

### **5.15 Pan fo Plentyn yn Dychwelyd**

Dylai'r rhieni, heddlu, gweithiwr cymdeithasol ac unrhyw un arall yr hysbyswyd fod y plentyn ar goll gael eu hysbysu bod y plentyn wedi dychwelyd. Yn dilyn dod o hyd i blentyn mae'n bwysig egluro unrhyw anghenion dybryd o ran diogelwch ac / neu les a chymryd pob cam rhesymol i roi sylw i'r rhain. Mae'n bwysig rhoi'r cyfle i'r plentyn siarad am ei brofiadau yn ogystal â chanfod pam ei fod wedi rhedeg i ffwrdd. Dylai'r cyfweliad/ôl-drafodaeth ddigwydd cyn gynted â phosib ond o leiaf o fewn 3 niwrnod gwaith. Dylid penderfynu a chytuno pwy yw'r person mwyaf priodol i siarad gyda'r plentyn. Gallai hwn fod yn swyddog heddlu neu weithiwr cymdeithasol neu lle mae cytundeb lleol yn bodoli, dylid defnyddio person annibynnol addas.

**5.15.1** Pwrpas y cyfweliad hwn yw canfod y canlynol:

- Pam aeth y plentyn/person ifanc ar goll ac, yn arbennig, a yw wedi dioddef camdriniaeth neu fwlio;
- A gafodd y plentyn anogaeth i fynd ar goll o ganlyniad i baratoi i bwrpas rhyw?
- Pa un a fu'r plentyn yn ddioddefwr trosedd cyn mynd ar goll neu tra'r oedd ar goll;
- Ble a chan bwy y cafodd y plentyn ei 'lochesu';
- Cael unrhyw wybodaeth a allai arwain at ganfod y plentyn yn gynnar pe bai'n diflannu eto;
- Rhoi ar waith unrhyw drefniadau cymorth i atal y plentyn/person ifanc rhag rhedeg i ffwrdd eto;
- Darparu gwybodaeth am wasanaethau/cymorth lleol sydd ar gael i'r person ifanc.

**5.15.2** Dylai'r cyfweiliad roi ystyriaeth i gyflwr meddyliol a chorfforol y plentyn. Os oes unrhyw bryderon, neu os bydd y plentyn yn gwneud honiadau o gam-drin rhywiol neu gorfforol dylid trefnu archwiliad meddygol, mewn ymgynghoriad gyda'r Peditrydd Amddiffyn Plant Ymgynghorol Lleol. Dylai'r cyfweiliad ystyried:

- Eglurhad y plentyn o'r absenoldeb.
- Symptomau corfforol, sy'n awgrymu ymosodiad corfforol, rhywiol neu gamddefnyddio sylweddau.
- Meddiant ar symiau mawr o arian neu eiddo heb esboniad.

**5.15.3** Dan amgylchiadau lle mae'r cyfweiliad yn canfod bod plentyn wedi dioddef, neu fod y plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol mae'n rhaid dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Fel rhan o'r gweithdrefnau hyn gall fod yn ofynnol cynnal cyfarfod strategaeth a fydd yn nodi a oes angen cynnal ymholiadau amddiffyn plant ac/neu ymateb i'r risgiau a adnabuwyd. Gall fod yn briodol cynnull adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal (LAC) ar y pwynt yma. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd plentyn wedi mynd ar goll dro ar ôl tro.

**5.15.4** Mae'n rhaid i asiantaethau fod yn ymwybodol y bydd nifer o sefyllfaoedd lle mae plant wedi bod ar goll o'u cartref yn galw am ymwneud a chymorth amlasiantaethol parhaus y tu hwnt i'r ymholiadau ac ymyriadau cychwynnol.

**5.15.5 Os yw Plentyn/person ifanc sy'n Derbyn Gofal wedi mynd ar goll mae'n rhaid cynnig cyswllt iddynt bob amser â Gwasanaeth Eiriolaeth ac mae'n rhaid rhoi rhestr iddynt o wybodaeth a rhifau ffôn lleol er mwyn diogelu eu lles.**

Gwasanaeth Eiriolaeth Cenedlaethol MEIC Ffôn 080880 23456 Testun SMS: 84001

[www.meiccymru.org.uk](http://www.meiccymru.org.uk)

Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Comisiynydd Plant Cymru

Rhadffôn: 0808 801 1000 Testun am ddim: 80800 E-bost: [advice@childcomwales.org.uk](mailto:advice@childcomwales.org.uk)

## **6. Y Broses ar gyfer Plant sydd ar goll o'u cartref**

### **6.1 Plant sy'n Hysbys i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol**

Pan hysbysir fod plentyn ar goll, mae angen i swyddogion heddlu wneud ymholiadau i ganfod a yw eisoes yn hysbys i'r adran gwasanaethau cymdeithasol. Tra bo plentyn yn byw gartref gall fod yn ddarostyngedig i orchymyn statudol sy'n rhoi cyfrifoldeb rhiant ar y cyd i'r adran gwasanaethau cymdeithasol, gall fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac felly gall fod cynllun amddiffyn ar ei gyfer neu efallai ei fod wedi cael ei adnabod fel plentyn ac arno/arni angen gwasanaethau a chymorth.

**6.1.2** Pan fo enw plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, dylai swyddogion heddlu a gweithwyr cymdeithasol gyfeirio at Adran 3.27.6 yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan i gael arweiniad. Bydd yr amgylchiadau hyn yn ei gwneud yn angenrheidiol rhannu gwybodaeth a chynnal cyswllt agos rhwng swyddogion heddlu a gweithwyr cymdeithasol.

**6.1.3** Dan bob math o amgylchiadau mae'n rhaid ystyried cynnull cyfarfod strategaeth cyn gynted â phosib, ond o leiaf o fewn 7 niwrnod gwaith. Bydd yr angen am, ac amseriad cyfarfod o'r fath yn cael eu pennu gan lefel y risg a ganfuwyd yn yr asesiad.

**6.1.4** Bydd arwyddion bod plentyn wedi dioddef neu ei fod mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol yn ysgogiad i gynnull cynhadledd amddiffyn plant.

### **6.2 Plant nad ydynt ar Hyn o Bryd yn Hysbys i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol**

Lle hysbysir fod plentyn ar goll a lle nad yw'r plentyn yn hysbys ar hyn o bryd i'r adran gwasanaethau cymdeithasol, mae angen i swyddogion heddlu ystyried atgyfeirio'r achos at yr adran ar gyfer asesiad o'r angen/risg o ganlyniad i brofiadau'r plentyn tra'i fod ar goll neu'r sefyllfa pan fydd yn dychwelyd adref.

### **6.3 Hysbysu Heddluoedd Eraill – Cyhoeddusrwydd**

Os yw plentyn ar goll o'i gartref, rhoddir sylw i ystyried strategaeth gyhoeddusrwydd briodol, a'r broses y dylid ei dilyn, yn adran 5.9 o'r protocol hwn.

### **6.4 Pan fo Plentyn yn Dychwelyd**

Dylai'r rhieni, heddlu, gweithiwr cymdeithasol ac unrhyw un arall yr hysbyswyd fod y plentyn ar goll gael eu hysbysu bod y plentyn wedi dychwelyd. Mae'n bwysig rhoi'r cyfle i'r plentyn siarad am ei brofiadau yn ogystal â chanfod pam ei fod wedi rhedeg i ffwrdd. Dylai'r cyfweliad/ôl-drafodaeth ddigwydd cyn gynted â phosib ond o leiaf o fewn 3 niwrnod gwaith. Dylid penderfynu a chytuno pwy yw'r person mwyaf priodol i siarad gyda'r plentyn. Gallai hwn fod yn swyddog heddlu, gweithiwr cymdeithasol, athro/athrawes neu berson annibynnol. Pwrpas y cyfweliad hwn yw canfod y canlynol:

- Pam aeth y plentyn/person ifanc ar goll ac, yn arbennig, a yw wedi dioddef camdriniaeth neu fwlio;
- Pa un a fu'r plentyn yn ddioddefwr trosedd cyn mynd ar goll neu tra'r oedd ar goll;
- Ble a chan bwy y cafodd y plentyn ei 'lochesu';
- Cael unrhyw wybodaeth a allai arwain at ganfod y plentyn yn gynnar pe bai'n diflannu eto;



- Rhoi ar waith unrhyw drefniadau cymorth i atal y plentyn/person ifanc rhag rhedeg i ffwrdd eto;
- Darparu gwybodaeth am wasanaethau/cymorth lleol sydd ar gael i'r person ifanc.

**6.4.1** Dylai'r cyfweiliad roi ystyriaeth i gyflwr meddyliol a chorfforol y plentyn. Os oes unrhyw bryderon, neu os bydd y plentyn yn gwneud honiadau o gam-drin rhywiol neu gorfforol dylid trefnu archwiliad meddygol, mewn ymgynghoriad gyda'r Peditrydd Amddiffyn Plant Ymgynghorol Lleol. Dylai'r cyfweiliad ystyried:

- Eglurhad y plentyn o'r absenoldeb.
- Symptomau corfforol, sy'n awgrymu ymosodiad corfforol, rhywiol neu gamddefnyddio sylweddau.
- Meddiant ar symiau mawr o arian neu eitemau drud.

**6.4.2** Dan amgylchiadau lle mae'r asesiad yn canfod bod plentyn wedi dioddef, neu fod y plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, bydd yn ofynnol cynnal cyfarfod strategaeth i gynllunio ymholiadau amddiffyn plant os yn briodol, neu ymateb i'r risgiau a adnabuwyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd plentyn wedi mynd ar goll dro ar ôl tro.

**6.4.3** Mae'n rhaid i asiantaethau fod yn ymwybodol y bydd nifer o sefyllfaoedd lle mae plant wedi bod ar goll o'u cartref yn galw am ymwneud a chymorth amlasiantaethol parhaus y tu hwnt i'r ymholiadau ac ymyriadau cychwynnol.

## **7. Trefniadau Monitro Strategol a Throsolwg**

**7.1** Dylai asiantaethau unigol ddilyn eu canllawiau a'u gweithdrefnau eu hunain mewn perthynas â monitro a chofnodi achosion o absenoldeb.

**7.2** Y Bwrdd Lleol Diogelu Plant fydd yn gyfrifol am adolygu data asiantaethau ar blant sydd ar goll ac argymhell arferion gwell lle mae angen.

## **8. Rôl asiantaethau unigol**

**8.1** Mae gan yr holl asiantaethau gyfrifoldeb am ddiogelu plant a phobl ifanc a chydymffurfio â'r protocolau hyn. Caiff y priod rolau eu hamlinellu isod:

### **8.2 Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol**

Caiff cyfrifoldebau'r adran gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â diogelu plant a hybu eu lles eu hamlinellu yn Neddau Plant 1989 a 2004.

**8.2.1** Ym mhob achos lle mae plentyn wedi bod ar goll o'i gartref deirgwaith mewn deuddeng mis, mae'n rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gynnull cyfarfod strategaeth yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Rôl y gwasanaethau cymdeithasol yw cydlynu'r trefniadau amlasiantaethol i ymateb i blant sy'n mynd ar goll.

### **8.3 Yr Heddlu**

Mae'r ymchwiliad i berson sydd ar goll yn dechrau ar y pwynt pan gaiff yr heddlu eu hysbysu gyntaf.

**8.3.1** Gall blaenoriaethau'r gwasanaeth heddlu wrth ymateb ar ôl cael eu hysbysu bod rhywun ar goll gael eu crynhoi fel a ganlyn:

- Sicrhau bod asesiad risg yn cael ei gynnal bob tro yr hysbysir fod rhywun ar goll fel bod y bobl ar goll a allai fod yn agored i niwed neu a allai achosi risg uchel yn gallu cael eu hadnabod ar unwaith;
- Ymchwilio i hysbysiadau bod pobl ar goll;
- Bod â pholisïau eglur sy'n disgrifio rolau ac ymatebion cyfundrefnol i hysbysiadau bod pobl ar goll;
- Mabwysiadu dull amlasiantaethol rhagweithiol wrth ymdrin â phobl sydd ar goll;
- Diwallu anghenion y teulu, y rheiny sy'n agos at y person sydd ar goll a'r gymuned;
- Sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant digonol i ymchwilio i achosion o bobl sydd ar goll;
- Diogelu tystiolaeth lle mae trosedd wedi cael ei gyflawni.

#### **8.4** Addysg

Mae gan athrawon a staff eraill mewn ysgolion ddyletswyddau hefyd dan Ddeddfau Plant 1989 a 2004. Maent hefyd mewn cyswllt agos a rheolaidd â phlant y gall fod risg y byddant yn rhedeg i ffwrdd neu sydd wedi rhedeg i ffwrdd. Dylent fod yn ymwybodol o'r risgiau y gallai plant gael eu tynnu i mewn iddynt, neu fod yn effro i newidiadau mewn patrymau ymddygiad. Dylai unrhyw bryderon gael eu codi gydag athro/athrawes d(d)ynodedig yr ysgol ar gyfer amddiffyn plant, y gall fod angen iddo yntau/iddi hithau wedyn atgyfeirio'r achos at yr heddlu ac/neu'r gwasanaethau cymdeithasol a hysbysu swyddog cyswllt lles addysg yr ysgol.

**8.4.1** Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Personol a Chymdeithasol yn darparu cyfleoedd eglur i athrawon drafod materion personol, cymdeithasol a moesol a chynorthwyo plant i ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol. Bydd athrawon yn gallu cyfeirio plant at bwyntiau cyswllt ar gyfer plant a chanddynt broblemau gartref neu yn rhywle arall, ac mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion.

**8.4.2** Lle mae plant wedi bod ar goll o'u cartref ac yn cael eu hailintegreiddio yn yr ysgol, dylai staff fod yn ymwybodol o unrhyw anghenion sydd wedi'u hadnabod.

#### **8.5** Iechyd

Mae gan y Gwasanaeth Iechyd ran bwysig i'w chwarae wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi rhedeg i ffwrdd o'u cartref. Os yw person ifanc yn mynd at wasanaeth iechyd ac os daw'n amlwg ei fod wedi rhedeg i ffwrdd o'i gartref neu o ofal yr Awdurdod Lleol, yna dylai'r Gwasanaeth Iechyd atgyfeirio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol.

**8.5.1** Os yw person ifanc yn rhedeg i ffwrdd o ysbyty dylai'r heddlu gael eu hysbysu gan staff yr ysbyty a fyddai'n cwblhau asesiad risg yn unol â'r protocol hwn.

**8.5.2** Mae gan bob ysgol nyrs gyswllt ar gyfer yr ysgol a all roi cyngor ynghylch ystod o faterion sy'n gysylltiedig ag iechyd.

### **8.6 Y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Sector Gwirfoddol**

Mae gan y Gwasanaeth Iechyd a'r Sector Gwirfoddol ran bwysig i'w chwarae wrth weithio gyda phlant sy'n mynd ar goll. Oherwydd eu ffordd o fyw a'u profiadau teuluol yn y gorffennol, mae nifer o bobl ifanc yn gyndyn o ymgysylltu â gwasanaethau statudol eraill ac maent yn aml yn cael y Gwasanaeth Ieuenctid ac Asiantaethau Gwirfoddol yn ffynonellau cymorth y mae'n haws mynd atynt. Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Sector Gwirfoddol ddyletswydd i adnabod pryderon a'u hatgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol a chyfrannu at drefniadau gweithio amlasiantaethol.

**9. Llofnodion Asiantaethau**

<b>Asiantaeth</b>	<b>Enw</b>	<b>Statws</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Llofnod</b>



**Atodiad A Matrics: Camau Gweithredu, Cyfrifoldebau, Graddfeydd Amser a Monitro**

**Plant sydd Ar Goll o Lety Awdurdod Lleol**

AMGYLCHIADAU	CAM GWEITHREDU	CYFRIFOLDEB	GRADDFEYDD AMSER	MONITRO
Ar adeg derbyn i'r llety	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ystyried risgiau a natur agored i niwed o ran y plentyn ar goll – trefniadau rhag-gynllunio (gweler 5.2.1).</li> <li>• I'w gofnodi ar Gynllun Gofal y plentyn</li> <li>• Gweithio'n unol â'r Rheoliadau 'Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell'.</li> </ul>	Gweithiwr cymdeithasol; Rheolwr Tîm, Gofalwr; Plentyn / Person Ifanc; Teulu	Adolygiad cyntaf ac adolygiadau dilynol [Plentyn sy'n Derbyn Gofal]	<p>Ar bob cam yn y broses, dylai'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol gydymffurfio â chanllawiau cofnodi a monitro eu hasiantaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Proses Asesu, Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>• Goruchwyliaeth</li> <li>• Archwiliadau Plant sy'n Derbyn Gofal ac archwiliadau o ffeiliau</li> <li>• Fforwm Cynllunio'r Gwasanaeth Troseddau Ieuentid</li> <li>• Arolygiadau</li> </ul> <p>AGGCC</p>

AMGYLCHIADAU	CAM GWEITHREDU	CYFRIFOLDEB	GRADDFEYDD AMSER	MONITRO
Plant ar goll: Plentyn sydd wedi dianc ac yn ddarostyngedig i Orchymyn Llys [h.y. remand, cyrffyw, mechnïaeth neu amodau preswyllo] neu Orchymyn Hyfforddi Dalfa'r Ifanc	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hysbysu'r heddlu bod y plentyn ar goll (gweler 5.4 a 5.5)</li> <li>Hysbysu'r gweithiwr cymdeithasol</li> <li>Hysbysu'r Gwasanaeth Troseddau leuencid (lle y bo'n berthnasol dylai'r Gwasanaeth Troseddau leuencid gysylltu â'r cwmni gwyliaeth electronig priodol)</li> </ul>	Gofalwr; gweithiwr yn yr uned	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> <li>Proses A: Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Plant sy'n D Gofal</li> <li>Goruchw</li> <li>Archwilia</li> <li>Plant sy'n Derbyn Gofal ac archwiliadau o ffeiliau</li> </ul>
Plentyn Ar Goll a. Absenoldeb anawdurdodedig	Asesiad Risg Ystyried yr holl agweddau a nodir yn 5.4 a 5.5 i'w cofnodi ar y ffurflen Asesu, fel yn Atodiad D. Person ifanc yn cael ei gategoreiddio fel un sydd ar 'absenoldeb anawdurdodedig' – cynnal asesiad risg parhaus	Gofalwr a gweithiwr cymdeithasol / rheolwr y tîm  Gofalwr a gweithiwr cymdeithasol / rheolwr y tîm	Ar unwaith  Yn barhaus	<ul style="list-style-type: none"> <li>Proses A: Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Plant sy'n D Gofal</li> <li>Goruchw</li> <li>Archwilia</li> <li>Plant sy'n Derbyn Gofal ac archwiliadau o ffeiliau</li> </ul>
b. Plant sydd 'Ar Goll'	<ul style="list-style-type: none"> <li>Y gofalwr i hysbysu'r heddlu bod y plentyn/person ifanc ar goll</li> <li>Y gweithiwr cymdeithasol i gael ei hysbysu</li> </ul>	Gofalwr	Risg uchel – ar ôl 6 awr neu erbyn hanner nos ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb	<ul style="list-style-type: none"> <li>Prosesau: gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal fel uchod</li> </ul>
b. Enw'r plentyn ar y Gofrestr		Pob asiantaeth sy'n gweithio gyda'r teulu	Ar unwaith	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhadle: Adolygu Amddiffyn Plant</li> </ul>

AMGYLCHIADAU	CAM GWEITHREDU	CYFRIFOLDEB	GRADDFEYDD AMSER	MONITRO
Amddiffyn Plant	Yn ogystal â'r uchod – dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan			<ul style="list-style-type: none"> <li>Goruchwyliaeth System</li> <li>Archwiliadau System</li> <li>Plant sy'n Derbyn Gofal ac archwiliadau o ffeiliau</li> </ul>
Cofnodi	Pob asiantaeth i ddilyn canllawiau'r asiantaeth mewn perthynas â chofnodi	Yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol	Yn barhaus	<ul style="list-style-type: none"> <li>Goruchwyliaeth System</li> <li>Gorchymyn a Rheoli'r Heddlu System</li> <li>Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>Goruchwyliaeth Archwiliadau</li> <li>Plant sy'n Derbyn Gofal ac archwiliadau o ffeiliau</li> </ul>
Y Cyfryngau – hysbysu Heddluoedd eraill	Bydd yr heddlu'n hysbysu heddluoedd eraill trwy'r Biwro Cenedlaethol Pobl sydd Ar Goll – rhoi ystyriaeth i ddefnyddio Gwefan Pobl sydd Ar Goll y DU	Swyddog Heddlu sy'n arwain yr ymchwiliad	Ar ôl i'r plentyn fod ar goll am fwy na 12 awr	<ul style="list-style-type: none"> <li>Goruchwyliaeth System</li> <li>Gorchymyn a Rheoli'r Heddlu System</li> <li>Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>Goruchwyliaeth Archwiliadau</li> <li>Plant sy'n Derbyn Gofal ac archwiliadau o ffeiliau</li> </ul>
Y Cyfryngau	Hysbysu'r cyfryngau lleol	Yr heddlu'n chwarae rhan arweiniol – Swyddog Heddlu sy'n arwain yr ymchwiliad, yn dilyn trafodaethau gyda rheolwr grŵp y gwasanaethau cymdeithasol a'r rheiny â chyfrifoldeb riant	Ystyriaeth barhaus	System Gorchymyn a Rheoli'r Heddlu
Plentyn Wedi'i Ganfod	a. Dychwelyd y plentyn i'r lleoliad:	Gweithiwr cymdeithasol	Cyn gynted â phosib	<ul style="list-style-type: none"> <li>Goruchwyliaeth System</li> <li>Gorchymyn a Rheoli'r Heddlu</li> </ul>



	<p>(Oni bai fod gwybodaeth yn awgrymu y byddai gwneud hynny'n debygol o achosi risg o niwed sylweddol i'r plentyn)</p> <p>Rhieni a'r holl asiantaethau perthnasol i gael eu hysbysu</p> <p>Plentyn i gael cyfweiliad gan berson sy'n annibynnol ar y lleoliad. Y pwrpas yw ffurfio asesiad o'r absenoldeb.</p>	<p>Tasgau i gael eu cytuno rhwng yr Heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol</p> <p>Person sy'n annibynnol ar y lleoliad.</p> <p>Cyfrifoldeb i gael ei gytuno rhwng yr heddlu a'r gweithiwr cymdeithasol – y plentyn i gael cynnig cyswllt bob amser â'r Prosiect Eiriolaeth Plant</p>	<p>Ar unwaith</p> <p>O fewn tri niwrnod gwaith</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>System Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>Goruchwyliaeth Archwiliadau</li> <li>Plant sy'n Derbyn Gofal ac archwiliadau o ffeiliau</li> </ul>
<p>Pryderon arbennig yn codi o asesiad o'r absenoldeb e.e. achosion lluosog o absenoldeb</p>	<p>Cynnal cyfarfod strategaeth ac / neu ystyried adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal</p>	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymdeithasol</p>	<p>O fewn 7 niwrnod i'r absenoldeb yn ôl yr asesiad risg</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cofnodion y cyfarfod strategaeth</li> <li>System Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>Goruchwyliaeth Archwiliadau</li> <li>Plant sy'n Derbyn Gofal ac archwiliadau o ffeiliau</li> </ul>
<p>Plentyn ar goll am 7 niwrnod</p>	<p>Cyfarfod strategaeth yn cael ei gynnal</p>	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymdeithasol</p>	<p>Ar ôl 7 niwrnod o absenoldeb</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cofnodion y cyfarfod strategaeth</li> <li>System Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>Goruchwyliaeth Archwiliadau</li> <li>Plant sy'n Derbyn Gofal ac archwiliadau o ffeiliau</li> </ul>
<p>Plentyn ar goll am</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygiad</li> </ul>	<p>Rheolwr y Gwasanaethau</p>	<p>Yn wythnosol tra</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>System</li> </ul>

gyfnod hwy	<ul style="list-style-type: none"> <li>• wythnosol gan Reolwr y Tîm</li> <li>• Grŵp yn cael ei hysbysu</li> <li>• wythnosol â'r heddlu</li> </ul>	<p>Y Rheolwr</p> <p>Cyswllt</p> <p>Cymdeithasol</p>	bo'r plentyn ar goll	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gorchymyn a Rheoli'r Heddlu System</li> <li>• Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>• Archwiliadau Plant sy'n Derbyn Gofal ac archwiliadau o ffeiliau</li> </ul>
------------	---	---	----------------------	--

**Plant sydd Ar Goll o'u Cartref**

<b>AMGYLCHIADAU</b>	<b>CAM GWEITHREDU</b>	<b>CYFRIFOLDEB</b>	<b>GRADDFEYDD AMSER</b>	<b>MONITRO</b>
Yr heddlu wedi'u hysbysu bod plentyn ar goll	Yr heddlu i wneud ymholiadau i ganfod a yw'r plentyn yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol	Swyddog heddlu sy'n arwain yr ymchwiliad	Ar unwaith	System Gorchymyn a Rheoli'r Heddlu
Enw'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan	Yr holl asiantaethau sy'n gweithio gyda'r teulu	Ar unwaith	Systemau goruchwyliaeth a monitro asiantaethau unigol  System adolygu'r Gofrestr Amddiffyn Plant
Plentyn ar goll	a. Aseiad Risg, gan roi sylw i'r holl ystyriaethau a ddynodwyd yn adran 5.5	Yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, os yw'r plentyn a'r teulu'n hysbys iddynt	Ar unwaith ac yn barhaus	System Gorchymyn a Rheoli'r Heddlu
	b. Ystyried cynnal cyfarfod strategaeth yn seiliedig ar yr aseiad o'r risg	Swyddog heddlu sy'n arwain yr ymchwiliad/rheolwr tîm y gwasanaethau cymdeithasol	Ar unwaith ac yn barhaus	Proses Cofnodi a Goruchwyliaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol System Gorchymyn a Rheoli'r Heddlu
	c. Hysbysu heddluoedd eraill	Swyddog heddlu sy'n arwain yr ymchwiliad	Wedi i'r plentyn fod ar goll am fwy na 12 awr	Proses cofnodi a goruchwyliaeth y gwasanaethau cymdeithasol  System Gorchymyn a Rheoli'r Heddlu
	d. Y Cyfryngau	Yr heddlu'n chwarae rhan arweiniol. Swyddog heddlu sy'n	Ystyriaeth barhaus	Y gwasanaethau cymdeithasol trwy'r broses cofnodi a

AMGYLCHIADAU	CAM GWEITHREDU	CYFRIFOLDEB	GRADDFEYDD AMSER	MONITRO
		arwain yr ymchwiliad, yn dilyn trafod gyda rheolwr grŵp y gwasanaethau cymdeithasol (os yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o'r broses) a'r rheiny â chyfrifoldeb rhiant		goruchwyliaeth
Plentyn/person ifanc sydd wedi bod ar goll x 3 mewn cyfnod o ddeuddeng mis	Cynnal Trafodaeth / Cyfarfod Strategaeth	Gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu	O fewn 7 niwrnod i'r absenoldeb diwethaf neu yn ôl yr asesiad risg	Cofnodion y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu o'r drafodaeth strategaeth
Plentyn wedi'i ganfod / wedi'i ddychwelyd	a. Hysbysu'r holl asiantaethau a'r holl bobl yr hysbyswyd fod y plentyn yn absennol	Swyddog heddlu sy'n arwain yr ymchwiliad	Ar unwaith ar ôl dychweliad y plentyn	System Gorchymyn a Rheoli'r Heddlu
	b. Y plentyn i gael cyfweliad, asesiad ôl-drafodaeth o'r absenoldeb (i'w gytuno gyda'r rheiny â chyfrifoldeb rhiant)	Swyddog heddlu sy'n arwain yr ymchwiliad ac/neu atgyfeiriad at y gwasanaethau cymdeithasol (gweler isod)	O fewn 3 diwrnod gwaith i ddychweliad y plentyn	System Gorchymyn a Rheoli'r Heddlu
	c. Yr heddlu i ystyried atgyfeirio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol, os nad ydynt eisoes yn rhan o'r broses	Swyddog heddlu sy'n arwain yr ymchwiliad	O fewn 3 diwrnod gwaith i ddychweliad y plentyn	System Gorchymyn a Rheoli'r Heddlu
	d. Ystyried cynnull cyfarfod strategaeth	Swyddog heddlu sy'n arwain yr ymchwiliad/rheolwr tîm y gwasanaethau cymdeithasol	O fewn 3 diwrnod gwaith i ddychweliad y plentyn	System Gorchymyn a Rheoli'r Heddlu Proses cofnodi a goruchwyliaeth y gwasanaethau cymdeithasol



Atodiad B Siartiau Llif

(See text in separate file)

## **Atodiad C: Taflen Wybodaeth i Bobl Ifanc**

### **BETH FYDD YN DIGWYDD OS BYDDWCH YN MYND AR GOLL?**

**Y peth pwysicaf i bawb yw eich bod yn ddiogel ac yn iach a'ch bod yn teimlo eich bod yn gallu siarad gyda rhywun am UNRHYW BETH sydd o'i le**

- **Beth yw ystyr 'ar goll'?**

Rydych chi ar goll os byddwch yn mynd i ffwrdd o'r lle y dylech fod ynddo heb ganiatâd ac yn peidio â dweud wrth bobl i ble rydych yn mynd a chyda phwy.

- **Beth fydd yn digwydd os byddwch yn mynd ar goll?**

Bydd y bobl sy'n gofalu amdanoch yn gofyn i'ch ffrindiau a'ch teulu am unrhyw wybodaeth. Byddant yn edrych yn eich ystafell am gliwiau i'w helpu i wybod ble gallech fod neu gyda phwy rydych chi, a gallant gysylltu â phobl y gallech fod gyda hwy. Bydd yr heddlu'n cael gwybod ar unwaith os oes pryderon ynghylch eich diogelwch.

- **Beth fydd yn digwydd os na fyddwn yn dod o hyd i chi ar ôl ychydig?**

Os nad ydynt wedi cael gwybod yn barod, bydd rhywun yn dweud wrth yr heddlu, gan roi eich enw a gwybodaeth am y dillad yr ydych yn eu gwisgo a llun diweddar, os oes un ar gael.

Gellir trefnu chwiliad ac efallai y bydd eich llun a'ch manylion yn cael eu rhoi yn y papurau newydd er mwyn helpu i ddod o hyd i chi.

- **Beth fydd yn digwydd pan fydd rhywun wedi dod o hyd i chi?**

Rydyn ni'n meddwl ei bod yn bwysig i chi gael cyfle i siarad gyda rhywun am yr hyn sy'n eich poeni ac a allai fod wedi achosi i chi redeg i ffwrdd.

Byddwch yn cael eich dychwelyd adref, oni bai y cytunir na fyddai'n ddiogel i chi wneud hynny ar yr adeg honno. Os bydd y gweithiwr cymdeithasol, rhiant maeth sy'n gyfrifol amdanoch neu eich rhiant yn dod o hyd i chi, bydd ef neu hi'n eich cludo adref.

- **Fydd unrhyw beth arall yn digwydd?**

Os ydych wedi cael anaf neu os ydych yn anhwylyd, bydd meddyg neu nyrs yn rhoi archwiliad i chi. Os byddwch yn teimlo ymhen hir a hwyr eich bod yn dymuno siarad gyda rhywun gallwch wneud hynny. Gall y person fod yn rhywun o'r Gwasanaeth Eiriolaeth, athro/athrawes, gofalwr neu swyddog heddlu a.y.b. Mae'n bwysig dewis rhywun yr ydych yn ymddiried ynddo/ynddi.

**Atodiad D: Ffurflen Asesu Risg**

**PLANT SYDD AR GOLL O LETY AWDURDOD LLEOL**

**ASESIAD RISG**

Enw'r Plentyn:.....

Dyddiad Geni/Oedran: .....

Statws Cyfreithiol: .....

Cyfeiriad y Cartref: .....

.....

Cyfeiriad Gofal: .....

.....

Dyddiad ac amser y canfuwyd yr absenoldeb: .....

1. A oes canllawiau o ran y camau gweithredu y dylid eu cymryd wedi'u cytuno eisoes yng Nghynllun Gofal y plentyn?

**OES/NAC OES**

*Os oes, rhowch fanylion:*

\_\_\_\_\_

2. Oedran ac Aeddfedrwyd:

*Nodwch unrhyw sylwadau o ran oedran ac aeddfedrwyd y plentyn.*

Manylion:

\_\_\_\_\_



3. A oes hanes o'r canlynol:

i. Mynd ar goll?

**OES/NAC OES**

ii. Hunan-niweidio?

iii. Camddefnyddio sylweddau?

*Os oes, rhowch fanylion:*

---

4. A yw'r plentyn yn arbennig o agored i niwed mewn unrhyw ffordd?  
- h.y. cyflwr meddyliol neu gorfforol?

**YDY/NAC YDY**

*Os ydyw, rhowch fanylion:*

---

5. A oes unrhyw wybodaeth am gyflwr meddyliol y plentyn ar yr adeg yr aeth ar goll?

**OES/NAC OES/DDIM YN GWYBOD**

*Os oes, rhowch fanylion:*

---

6. A oes unrhyw arwydd/gwybodaeth ar y cam hwn i ddynodi pam fod y plentyn wedi mynd ar goll (h.y. rhedeg i ffwrdd oddi wrth, neu at sefyllfa/person arbennig, dan ddylanwad cyfoedion)?

**OES/NAC OES/DDIM YN GWYBOD**

*Os oes, rhowch fanylion:*

---

7. A oes teimlad bod risg arbennig y gallai'r plentyn ddiodef camfanteisio rhywiol?

**OES/NAC OES/DDIM YN GWYBOD**

Os oes, rhowch fanylion:

---

8. A yw'n hysbys bod y plentyn wedi bod yn rhan o weithgarwch troseddol?

**YDY/NAC YDY**

Os ydyw, rhowch fanylion:

---

9. ASESAD O'R RISGIAU  
(ynghyd â'r rhesymau)

---

10. PENDERFYNIAD A'R CAMAU GWEITHREDU SY'N OFYNNOL

---

11. Dyddiad ac amser yr hysbyswyd yr heddlu fod y plentyn ar goll:

---

12. Os dychwelodd cyn i'r heddlu gael ei hysbysu ei fod ar goll, yr amser y dychwelodd y plentyn:

---

**Llofnod y Gweithiwr Cymdeithasol: .....Dyddiad.....Tîm.....**

**Llofnod Rheolwr y Tîm: .....Dyddiad**

**Atodiad E: Cynllunio Gofal**

**Atodiad 2**

**Adran 1** i gael ei chwblhau yn ystod y broses o gynllunio'r gofal.

Manylion Personol			
Cyfenw		Dyddiad Geni	
Enw Cyntaf		Rhywedd	
Enw Canol		Enw a Ffafrir	
Cyfeiriad y Cartref			
		Cod Post	

Oedran		Enw Arall/Llysenw	
Man Geni		Ffôn y Cartref	
Ffôn Symudol a Darparwr Rhwydwaith			
Cyfeiriad y mae Ar Goll Ohono			
		Cod Post	

Ffotograff

Teulu			
Enw'r Perthynas Agosaf		Rhif Ffôn	
Cyfeiriad			
		Cod Post	

Enw'r Perthynas Nesaf		Rhif Ffôn	
Cyfeiriad			
		Cod Post	

Enw a Pherthynas y Prif Ofalwr		Rhif Ffôn	
Cyfeiriad			
		Cod Post	

Ysgol/ Galwedigaeth			
Rhif YG		Galwedigaeth	
Di-waith Y/N			
Ysgol/ Cyflogwr		Rhif Ffôn	
Cyfeiriad Ysgol/ Cyflogaeth			
		Cod Post	

Banc			
Cod Didoli		Rhif Cyfrif	
Math o Gerdyn		Rhif y Cerdyn	
Enw'r Banc		Rhif Ffôn y Banc	
Cyfeiriad y Banc			
		Cod Post	

Disgrifiad			
Ethnigrwydd		Cenedligrwydd	
Math o Wallt (e.e. Hir)		Lliw Gwallt Naturiol	
Nodwedd ar y Gwallt (e.e. cyrliog)		Lliw Gwallt Artiffisial	
Wedi'i liwio Y/N		Yn gwynnu Y/N	
Blew ar yr Wyneb		Lliw Blew ar yr Wyneb	
Blew ar y Corff		Lliw Blew ar y Corff	
Nodwedd ar yr Eiliau		Lliw Eiliau	
Blew Trwyn		Lliw Blew Trwyn	
Blew Clustiau		Lliw Blew Clustiau	
Disgrifiad o'r Llygaid		Lliw'r Llygaid	
Disgrifiad o'r sbectol		Sbectol yn cael ei defnyddio ar gyfer	
Ystum (Atal dweud, cloff, byddar ac ati)		Maint / Pwysau	
Taldra o e.e. 6'		Taldra hyd at e.e. 6'4	
Acen Genedlaethol		Acen Ranbarthol	
Acen Leol		Pryd a Gwedd	
Llaw a Ddefnyddir		Maint Esgidiau	

### Nodweddion Gwahaniaethol

Dylid cynnwys Marciau, creithiau, tyllau yn y croen, aelodau o'r corff wedi'u torri i ffwrdd a thatŵs. E.e. Tatŵ, llew, rhan isaf y fraich dde ac unrhyw ddisgrifiad pellach.


### Meddygol

Enw'r Meddyg Teulu		Rhif Ffôn		
Cyfeiriad			Cod Post	

Enw'r Deintydd		Rhif Ffôn		
Cyfeiriad			Cod Post	

Enw'r Gweithiwr Cymdeithasol		Rhif Ffôn		
Cyfeiriad			Cod Post	

Enw Nyrs Seiciatrig		Rhif Ffôn		
Cyfeiriad			Cod Post	

Cydlynnydd Gofal		Rhif Ffôn	
Cyfeiriad			
		Cod Post	

Arall		Rhif Ffôn	
Cyfeiriad			
		Cod Post	

Pasbort			
Pasbort Dilys Y/N		Math e.e. Y DU	
Rhif y Pasbort		Dyddiad y Daw i Ben	
Lleoliad e.e. Cyfeiriad cartref			

Lleoedd a Fynychir			



Cymdeithion				
Enw	Oedran/ Dyddiad Geni	Cyfeiriad	Ffôn	Cysylltiad E.e. Ffrind

Meddyginiaeth
Dylid cynnwys yr effaith bosib pe bai'n rhoi'r gorau i gymryd y feddyginiaeth.

Dibyniaeth ar Sylweddau

### Gorchymyn Iechyd Meddwl

Dylid cynnwys y dyddiad terfyn

### Statws Gofal

Dylid cynnwys y dyddiad terfyn

### Hanes o Fod Ar Goll

Os bu ar goll yn flaenorol heb i'r heddlu gael eu hysbysu ble y daethpwyd o hyd iddo/iddi

Dylid cynnwys y dyddiad terfyn

**Adran 2** i gael ei chwblhau lle ystyrir fod person ar goll.

**Yr Heddlu wedi'u Hysbysu**

Dyddiad		Amser	
Hysbyswyd Gan		Rhif Ffôn	

**Y Tro Diweddaf Iddo/Iddi Gael Ei (G)weld**

Amser		Dyddiad	
Lleoliad			
Enw'r Sawl a'i Gwelodd		Rhif Ffôn	
Cyfeiriad			
		Cod Post	

**Dillad a Gemwaith**

Eitem E.e. Crys T / Esgidiau	Lliw(iau)	Gwneuthuriad/Logo	Disgrifiad arall

**Eiddo y Mae'n Ei Gario**

Eitem E.e. Pac Popeth	Lliw(iau)	Gwneuthuriad/Logo	Disgrifiad arall
--------------------------	-----------	-------------------	------------------


Ymholiadau/Chwiliadau		
Cam Gweithredu	Sylw	Cwblhawyd gan
Chwilio'r Ystafell (Disgrifiwch ehangder y chwiliad)		
Chwilio'r Adeilad (Disgrifiwch ehangder y chwiliad)		
Chwilio Tai Allan (Disgrifiwch ehangder y chwiliad)		
Chwilio'r Tir o Gwmpas (Disgrifiwch ehangder y chwiliad)		
Cysylltu â'r Perthynas Agosaf		
Cysylltu â'r Gweithiwr Cymdeithasol		
Cysylltu â Rheolwr y Cartref		
Arall		

**Atodiad F: Rhifau Ffôn Defnyddiol (i'w hychwanegu gan ardaloedd BLIDP unigol)**